Based on this throughput, the BCP would consist of approximately 5,500sqm of specialist modern, bespoke buildings and supporting facilities to manage the required checks. This building size would support the continued flexibility of the ports to bring through the different goods, as inspection areas must be segregated – for example, refrigerated space, animal inspection facilities etc. The hard elements of the BCP i.e. the building, parking and access, would approximately equate to 20,000 sqm, or 6 acres in total. It will include managed drainage, parking for staff and inspectors.

The site subject to negotiation for purchase is much larger than what is required to accommodate the proposal providing flexibility to introduce suitable environmental mitigations and landscape buffers between the development and the local community. Concept designs will only start once a site is identified and secured.

Construction:

The procurement strategy for South West Wales has yet to be determined. It is anticipated that a one stage approach could be adopted for South-West Wales predicated on lesson learned from the two stage approach in North Wales, which will accelerate delivery. Construction is expected to complete in Spring 2023 with an operational date of approximately Autumn 2023.

Border Control Posts in Wales

Technical Briefing Note

September 2021



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Funding

Currently:

The Chief Secretary to the Treasury (CST) has agreed in principle the UK Government will fund additional costs associated with the inland sites in 2021-22 via a formal reserve claim. This commitment is for incurred costs that are considered absolutely necessary to the build and includes such as costs which may fall into 2022/23 financial year. Welsh Government will be proceeding with costs at risk within its existing budgets until the settlement is reached with HM Treasury.

The request to UK Government for the BCP construction and operational costs is being made in the 2021 Spending Review. The delivery of BCPs at Welsh ports will be at risk without a commitment from UK Government to fund the full capital and operational cost of developing BCPs. The Spending Review outcome is expected later this year.

The original estimate provided by UK Government in 2020 was £10m to construct a single BCP with operational costs of £3-5m per annum.

Longer Term:

Many ports in England have constructed their own BCP facilities at the port, part funded through Government grants (the Port Infrastructure Fund, PIF). UK Government has constructed some BCPs, including at Sevington in Kent. Longer term, UK Government is examining the appropriate operational and funding model for these facilities, which may have implications for Welsh BCPs. However, nothing has been decided yet and Welsh Government is seeking to influence the outcomes to ensure they are appropriate for the circumstances of our ports.

Summary:

A summary of the latest Infrastructure and Operational cost estimates for North & SW Wales BCP facilities as at 01 September 2021.

| | North Wales | South West Wales |
|----------------|-------------|------------------|
| Capital | £75m | £63m |
| Revenue | £16m p.a. | £12m p.a. |

*Note figures include contingency for potential interim arrangements.

Context:

Designs for Holyhead remain in the concept phase and South West Wales concept designs are yet to be produced. This mean costs will evolve as detailed designs mature, construction bids are received, and the operational requirements develop.

Border Control Posts in Wales

Technical Briefing Note

September 2021



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Interim Measures

Since Welsh BCPs will not be able to accommodate the UK Government's timetable, a number of contingency options have been considered (there are also a number of English and Scottish BCPs which will not be completed by the original due date). The UK Government's legal assessment has emphasised the need for a coherent GB-wide regime.

UKG is considering the approach and timing. Further announcements will be made in due course by UKG but Welsh Ministers are determined to ensure these are suitable for the needs of our Welsh ports.

Saesneg yn unig



Rt Hon Lord Frost CMG
Minister of State
Cabinet Office 70 Whitehall London
SW1A 2AS

Mr Vaughan Gething MS
Minister for the Economy
Welsh Government

14 September 2021

Dear colleague,

BORDER CONTROLS

1. I write to let you know that I am announcing today by Written Ministerial Statement a delay to the introduction of customs and SPS controls on the importation of goods from the EU.
2. Now that we are an independent trading country outside the Single Market and Customs Union, our intention remains to introduce the same controls on incoming goods from the EU as on goods from the rest of the world. The Government announced a timetable for the introduction of the final stages of those controls on 11 March. The Government's own preparations, in terms of systems, infrastructure and resourcing, remain on track to meet that timetable.
3. However, the pandemic has had longer lasting impacts on businesses, both in the UK and in the European Union, than many observers expected in March. There are also pressures on global supply chains, caused by a wide range of factors including the pandemic and the increased costs of global freight transport. These pressures are being especially felt in the agrifood sector.
4. In these circumstances, the Government has decided to delay further some elements of the new controls, especially those relating to Sanitary and Phytosanitary goods. Accordingly:
 - The requirement for pre-notification of agri-food imports will be introduced on 1 January 2022 as opposed to 1 October 2021.
 - The new requirements for Export Health Certificates, which were due to be introduced on 1 October 2021, will now be introduced on 1 July 2022.
 - Phytosanitary Certificates and physical checks on SPS goods at Border Control Posts, due to be introduced on 1 January 2022, will now be introduced on 1 July 2022.
 - The requirement for Safety and Security declarations on imports will be introduced as of 1 July 2022 as opposed to 1 January 2022.
5. The timetable for the removal of the current easements in relation to full customs controls and the

introduction of customs checks remains unchanged from the planned 1 January 2022.

6. The Government will work closely with the Devolved Administrations on the implementation of this new timetable, given their devolved responsibilities for agri-food controls.
7. We will, of course, keep your Committees updated on our progress and preparations throughout the year.

With best wishes,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jay M. H.', with a large, stylized initial 'J'.

Rt Hon Lord Frost CMG

Ein cyf/Our ref VG/0600/21

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5 Hydref 2021

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch dyfodol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Gronfa Codi'r Gwastad.

Rydym wedi egluro ein bod yn ystyried bod camau gweithredu Llywodraeth y DU ar y cronfeydd hyn yn annerbyniol, gan eu bod yn ymwneud â maes o gymhwysedd datganoledig ac felly'n hepgor trefniadau datganoli. Ar ben hynny, rydym yn wynebu gostyngiad enfawr yn y cyllid eleni er gwaethaf addewidion niferus na fyddai Cymru ar ei cholled yn ariannol.

Rwyf yn pryderu bod y dull gweithredu presennol eisoes yn cael effaith negyddol ar lywodraeth leol, busnesau, addysg ôl-16 a sefydliadau'r trydydd sector sy'n hanfodol i'r ddarpariaeth yn ein cymunedau. Mae perygl hefyd y bydd y cynigion presennol yn arwain at fuddsoddiadau digyswllt, gwerth gwael am arian, cystadleuaeth negyddol a bylchau sylweddol mewn cyllid ar draws amrywiaeth o sectorau. Maent hefyd yn bygwth cynlluniau cenedlaethol sy'n hanfodol i'n hadferiad, megis Busnes Cymru, prentisiaethau a Banc Datblygu Cymru.

I roi rhywfaint o gefndir, atodaf nodyn ffeithiol sy'n rhoi sylw manylach i'r materion hyn.

Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol newydd, Michael Gove, i'w longyfarch ar ei swydd newydd ac i ddechrau sgwrs am sut y gallem weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'n pryderon.

O ystyried effeithiau pellgyrhaeddol yr agenda hon ar faterion datganoledig yng Nghymru, byddwn yn awyddus i ymgysylltu â'ch pwyllgor i archwilio'r heriau y mae Cymru'n eu hwynebu dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf.

Yn gywir

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ATODIAD

Pwyntiau cyffredinol

- Mae buddsoddi rhanbarthol yn faes o gymhwysedd datganoledig. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth leol, busnes, AU/AB a'r trydydd sector, wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ac wedi defnyddio arbenigedd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i ddatblygu cynlluniau ar gyfer sut y dylid darparu Cronfeydd Strwythurol newydd yng Nghymru. Mae'r holl waith hwn wedi cael ei oruchwylio gan Grŵp Llywio cynrychioliadol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol (sydd bellach yn cael ei alw'n Fforwm Strategol), a gaiff ei gadeirio gan Huw Irranca-Davies AS ac mae ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#). Cyhoeddwyd y [Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru](#) fis Tachwedd diwethaf.
- Fel rhan o'r Adolygiad o Wariant ar 25 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd £220m ar gael ledled y DU ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 i brosiectau 'peilot' [Cronfa Adnewyddu Cymunedol](#). Mae'r gronfa'n cael ei rhedeg ar sail gystadleuol, a disgwylir i Gymru dderbyn oddeutu £10m eleni, neu £450,000 i bob awdurdod lleol.
- Cyfeiriodd Llywodraeth y DU at arian ym mlwyddyn beilot y Gronfa Ffyniant Gyffredin fel arian 'ychwanegol' ac y bydd y cyllid y bydd Cymru yn ei gael yn 2021/22 yn fwy nag y byddem wedi'i gael pe baem wedi aros yn yr UE. I gefnogi'r ddadl hon, mae'n 'gollwng' taliadau a ddaw o'r UE o'r ymrwymadau presennol a wneir o dan raglenni presennol yr UE (ac a fydd yn parhau i gael eu talu o gyllideb yr UE). Nid yw hyn ond yn ganlyniad mecanyddol i ymrwymadau cyfreithiol y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u gwneud i sefydliadau yng Nghymru. Yn syml, yn hytrach na chael arian ffres neu arian newydd i ymrwymo bob blwyddyn, mae Llywodraeth y DU yn cynnwys gwariant a ymrwymwyd o dan flynyddoedd blaenorol wrth gyfrifo cyllid eleni.
- Mae'r rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd presennol yn werth dros £375m bob blwyddyn dros saith mlynedd, a phe bai'r DU wedi aros yn yr UE, byddai Llywodraeth Cymru wedi gallu gwneud ymrwymadau cyfreithiol newydd, o fis Ionawr 2021 ymlaen, sy'n gwbl annibynnol ar y biblinell hon o daliadau o'r rhaglenni presennol. Er enghraifft, yn nwy flynedd gyntaf rhaglenni ERDF ac ESF 2014–2020, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymadau cyllido gwerth dros £1.1 biliwn i fudiadau a buddiolwyr. Ar ben hynny, ers 2014, mae'r sector AU/AB wedi elwa o £405m o gyllid; y sector preifat £272m (yn ogystal â dyraniadau mawr drwy gynlluniau busnes Llywodraeth Cymru), a'r trydydd sector £113m.
- Mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn gronfa gystadleuol sy'n wahanol i drefniadau cyllido'r UE a oedd yn dyrannu cyllid am sawl blwyddyn ac yn rhoi dyraniadau cyllid penodol ar sail anghenion i'w gwario ar draws pob rhan o Gymru.
- Ar gyfer Cronfa Risg Gymdeithasol y DU gyfan gwerth £220m, nododd Llywodraeth y DU 100 o feysydd blaenoriaeth [yma](#) (gan ddefnyddio mynegai o gadernid economaidd, mae Llywodraeth y DU wedi datblygu gan roi sylw i lefelau cynhyrchiant, incwm aelwydydd, diweithdra, sgiliau a dwysedd poblogaeth). Cyhoeddwyd y [fethodoleg](#) ar 12 Mawrth.
- Yn dilyn cyllideb 3 Mawrth, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol werthuso cynigion y Gronfa Risg Gymdeithasol a chyhoeddi rhestr fer o brosiectau erbyn 18 Mehefin i'w hasesu gan Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU. Rhaid cwblhau

pob ymyriad prosiect yn ariannol erbyn 31 Mawrth 2022. Ym mis Gorffennaf, ymrwymodd Llywodraeth y DU i wneud cyhoeddiadau am geisiadau llwyddiannus. Mae hyn wedi cael ei ohirio am fwy na dau fis, sy'n golygu llai o amser i sefydliadau ddarparu gweithgareddau a gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Mae Llywodraeth y DU wedi dweud mai dim ond fframwaith gwario lefel uchel ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin fydd yn cael ei gyhoeddi yn Adolygiad o Wariant y DU ar 27 Hydref.
- Hefyd ar 3 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU brospectws ar [Gronfa Codi'r Gwastad](#) gwerth £4.8bn ar gyfer y DU gyfan, sef rhaglen sy'n derbyn 100% o gyllid cyfalaf ar gyfer buddsoddiad Trafnidiaeth, Adfywio a Diwylliant dros bedair blynedd. Mae'r Gronfa Codi'r Gwastad yn disodli'r Gronfa Trefi a arferai fod yn weithredol yn Lloegr yn unig.
- Roedd y Canghellor wedi cyhoeddi'n wreiddiol yn yr Adolygiad o Wariant fis Tachwedd diwethaf y byddai'r Gronfa Codi'r Gwastad yn gronfa ar gyfer Lloegr yn unig gyda chyllid Barnett/dilyniannol o £800m dros bedair blynedd ar gyfer y llywodraethau datganoledig, ond cadarnhaodd cyhoeddiad ar 24 Chwefror y byddai'r Gronfa ar gyfer y DU gyfan ac y byddai'n cael ei rheoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth y DU.
- Disgwylir y bydd arian wedi'i glustnodi yn rownd gyntaf y Gronfa Codi'r Gwastad (bydd o leiaf 9% o gyfanswm dyraniadau'r DU yn cael ei neilltuo ar gyfer yr Alban, 5% ar gyfer Cymru a 3% ar gyfer Gogledd Iwerddon). Gan dybio bod Cymru'n cael 5% o'r Gronfa, byddai hynny £30m (os bydd £600m yn cael ei ryddhau ar gyfer 2021/22 fel y nodwyd), neu £1.3m fesul awdurdod lleol yng Nghymru.
- Bydd y Gronfa Codi'r Gwastad yn cefnogi prosiectau gwerth hyd at £20m o gyllid, gyda'r posibilrwydd o gynyddu i £50m ar gyfer prosiectau trafniadaeth yn unig. Gall Aelodau Senedd y DU gefnogi un cais penodol; os bydd mwy nag un etholaeth seneddol yn rhan ohono, gallant gefnogi cais ychwanegol. Mae'r gronfa'n cael ei rheoli ar y cyd gan Drysorlys EM, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Drafniadaeth.
- Mae gan y Gronfa Codi'r Gwastad drefniadau cyflenwi tebyg i'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol o ran cynnwys awdurdodau lleol, proses ymgeisio gystadleuol a [chategoriâu blaenoriaeth](#). Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio meini prawf gwahanol ar gyfer meysydd blaenoriaeth y Gronfa Codi'r Gwastad, gyda'r [fethodoleg](#) yn cael ei chyhoeddi ar 11 Mawrth.

Adroddiad y Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar Godi'r Gwastad

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor trawsbleidiol Busnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) [adroddiad](#) ar ei ymchwiliad i raglen Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU.

Themâu allweddol yr adroddiad:

- **Rhaglen Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU**

Detholiad o'r adroddiad

- Rydym yn siomedig bod cyn lleied o fanylion wedi'u cyflwyno i egluro'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ystyried y bydd codi'r gwastad yn ei olygu a sut y bydd yn cael ei gyflawni.

- Rydym yn poeni y bydd y diffyg diffiniad hwn yn arwain at fethiant i sicrhau newid ystyrion i bobl ledled y wlad.
- Mae wedi cael ei ategu'n gyson drwy gydol yr ymchwiliad hwn nad oes gan agenda codi'r gwastad y Llywodraeth, hyd yma, nodau na cherrig milltir clir nac unrhyw ffordd o fesur cynnydd a gwerthuso canlyniadau.
- Bydd methu â chyhoeddi blaenoriaethau a metrigau'r Llywodraeth yn ei gwneud yn amhosibl i ni ddeall beth sydd wedi'i gyflawni neu beth sydd heb gael ei gyflawni.
- Nid yw ychwaith yn glir sut mae codi'r gwastad yn wahanol i bolisiâu rhanbarthol yn y gorffennol a sut y bydd felly'n llwyddo mewn ardaloedd lle mae polisi rhanbarthol blaenorol wedi methu. Ni roddodd Gweinidogion ymateb digonol i hyn.

- **Cynllunio cronfeydd y DU**

- ***Detholiad o'r adroddiad***

- Mae'r cyllid sydd ar gael i godi'r gwastad yn wahanol ac nid oes ganddo unrhyw bwrpas na ffocws strategol cyffredinol a chydlynol.

- **Setliadau datganoli a Chodi'r Gwastad**

- ***Detholiad o'r adroddiad***

- Ni fu cytundeb gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch sut y dyrennir cyllid yn unol â'r setliadau datganoli.
 - Mae'r diffyg eglurder hwn ynghylch hyd a lled tiriogaethol yr agenda codi'r gwastad, ac absenoldeb ymddangosiadol unrhyw ymgysylltu strategol ystyrion â'r gweinyddiaethau datganoledig am yr agenda codi'r gwastad, yn amlygu'r diffyg eglurder a ffocws y polisi mawr hwn.

- **Lefelau cyllido'r DU o'i gymharu â chyllid yr UE, a dosbarthu cyfartal**

- ***Detholiad o'r adroddiad***

- Er gwaethaf ei uchelgais fawr a'r cyllid ychwanegol a addawyd, nid yw'n glir a fydd lefelau'r cyllid sydd ar gael i ardaloedd lleol (drwy godi'r gwastad) yn cyfateb, heb sôn am fod yn fwy na lefelau hanesyddol o gyllid y DU a'r UE i lywodraeth leol.
 - Mae anghydraddoldeb yng ngallu ardaloedd lleol i wneud cais am gyllid gan y llywodraeth.

Pwyllgor Materion Cymreig

Ar 2 Hydref 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ei adroddiad ar ei ymchwiliad: [Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin](#).

Darnau o'r Adroddiad:

- ...mae'r cynnydd o ran datblygu ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi bod yn fach iawn ac nid yw Gweinidogion wedi rhoi llawer o wybodaeth. ... gyda llai na thri mis i fynd tan i'r cyfnod pontio ddod i ben, a gydag effaith ychwanegol COVID-19, mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau sylfaenol am gwmpas, graddfa a gweinyddiaeth y cynllun yn dal heb eu hateb.

- ...Nid yw'r addewidion niferus am ymgynghoriadau a chyhoeddiadau sydd ar y gorwel wedi'u gwireddu, sy'n dangos diffyg blaenoriaeth. Er ein bod yn cydnabod bod pandemig COVID-19 wedi gorfodi Gweinidogion i ail-flaenoriaethu ac ailffocysu eu sylw, nid yw hyn yn esgusodi'r diffyg cynnydd gan fod llawer iawn o amser wedi mynd heibio cyn i bandemig COVID ddod yn ffactor.
- Rhaid i Lywodraeth y DU weithio ar frys gyda llywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac i gyd-greu'r manylion ynghylch sut bydd y Gronfa'n gweithio.
- Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo dro ar ôl tro i sicrhau nad yw Cymru ar ei cholled o ganlyniad i'r newid o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae'r dystiolaeth yn dweud yn bendant na ddylai Cymru fod ar ei cholled, yn enwedig yn sgil COVID-19. Mae angen fformiwla seiliedig ar anghenion mewn fframwaith ariannol dros sawl blwyddyn i ganiatáu dyraniad teg a chynllunio a darparu effeithiol.
- Er gwaethaf sicrwydd dro ar ôl tro gan Lywodraeth y DU y byddai'n parchu setliadau datganoli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae amwysedd mawr ynghylch pwy fydd â'r pwerau o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nid yw'n glir a yw Whitehall, o ganlyniad i ddarpariaethau Bil y Farchnad Fewnol, yn bwriadu goruchwyllo gweinyddiaeth y Gronfa'n uniongyrchol, neu a fwriedir i'r pwerau cymorth ariannol sydd yn y Bil weithredu ar wahân i'r Gronfa. Y naill ffordd neu'r llall, credwn y byddai Llywodraeth y DU yn annoeth i golli neu anwybyddu'r arbenigedd sydd wedi'i feithrin yn Swyddfeydd Cyllid Ewropeaidd y gweinyddiaethau datganoledig.
- Mae gwahaniaethau barn ynghylch lle y dylai'r union gydbwysedd pŵer a chyfrifoldeb fod o ran goruchwyllo a gweinyddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fodd bynnag, p'un a yw Llywodraeth y DU yn ymgymryd â rôl gomisiynu ar gyfer gweinyddu'r Gronfa, neu'n datganoli'n llawn y gwaith o'i gweinyddu, dylai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei seilio ar yr egwyddor o gydweithio a phartneriaeth rhwng Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth leol.
- Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth leol i ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth a fydd yn sail i weithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dylai'r memorandwm hwn gael ei seilio ar ddull partneriaeth a rhoi sicrwydd o gydweithio ac ymgysylltu gwirioneddol ar gyfer yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y trydydd sector.
- ... Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i hwyluso cydweithio, gan gynnwys mewn meysydd sy'n dod o dan fargeinion Dinesig a Thwf. Mae'n ymddangos yn synhwyrol y dylai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei chynllunio fel y gallai, yn y dyfodol, weithio gyda bargeinion Dinesig a Thwf.

Sylwadau clo'r adroddiad

- ... Fodd bynnag, gan fod y cyllid [UE] hwnnw i fod i ddiflannu'n raddol mewn llai na thri mis, mae diffyg cyfathrebu gan Weindogion a diffyg cynigion sylweddol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi bod yn amlwg yn eu habsenoldeb. Ers dros dair blynedd, rydym wedi gweld methiant i ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid neu'r Senedd. O ganlyniad, nid oes unrhyw eglurder ynghylch sut bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn edrych, sut bydd yn cael ei gweinyddu, na sut bydd yn cael ei hariannu. Mae hyn yn annerbyniol, a rhaid i Lywodraeth y DU gyhoeddi cynigion manwl ar gyfer sut bydd y Gronfa'n gweithredu, a gwneud hynny'n flaenoriaeth.

- ...Yn dilyn cyhoeddi Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU, mae'n bwysicach fyth bod eglurder a manylion yn cael eu rhoi am y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Sut bynnag y bydd yn cael ei chynllunio, ni ddylid colli'r arbenigedd a geir wrth weinyddu cronfeydd strwythurol a rhaid i Weinidogion fabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth sy'n manteisio ar arbenigedd ac adnoddau'r gweinyddiaethau datganoledig, llywodraeth leol a'r trydydd sector.

Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Cafodd y pwyntiau canlynol eu trafod a'u cytuno gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2021. Y man cychwyn oedd y cyhoeddiadau yn yr Adolygiad o Wariant ym mis Tachwedd 2020 yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion heb eu datrys yn Fframwaith Buddsoddi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a oedd i fod i gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU yn ystod gwanwyn 2021.

- Dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU weithredu ar sail dyraniadau ariannol dros sawl blwyddyn am gyn hired ag sy'n ymarferol bosibl.
- Ni ddylai'r dyraniadau ariannol i bob un o bedair gwlad y DU fod yn llai na'r hyn a gawsant yn flaenorol gan yr UE.
- Dylai dyraniadau cyllid i ardaloedd lleol gael eu pennu gan fformiwla, nid drwy gynnig cystadleuol
- Y sail orau o hyd ar gyfer dyrannu a rheoli cyllid i ardaloedd lleol yw drwy Is-ranbarthau
- Ni ddylai symud i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU roi rhannau o'r wlad a fyddai wedi cael cyllid sylweddol gan yr UE o dan anfantaï ormodol
- Y rôl briodol ar gyfer ceisiadau cystadleuol yw rhwng prosiectau posibl ym mhob ardal leol
- Ni ddylai'r llywodraeth fanylu gormod wrth ddiffinio'r blaenoriaethau ar gyfer gwariant Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
- Dylid integreiddio'r gweinyddiaethau datganoledig i'r strwythurau gwneud penderfyniadau a rheoli
- Mae angen symleiddio'r gwaith rheoli a gweinyddu
- Mae gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar frys yn hanfodol os ydym am osgoi bwlch mewn gweithgareddau

Adroddiad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar ei [Ymchwiliad](#) cychwynnol i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Tachwedd 2018)

- Rydym yn argymhell nad yw'r gyllideb flynyddol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn llai, mewn termau real, na'r ffrydiau cyllido yn yr UE a'r DU y mae'n eu disodli.
- Rydym yn argymhell y dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU weithredu ar sail dyraniadau ariannol dros sawl blwyddyn am gyn hired ag sy'n ymarferol bosibl.

- Ar hyn o bryd, rydym yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn mabwysiadu dull pragmatig ac yn cyflwyno cyfran bresennol y pedair gwlad o gyllid yr UE i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
- Rydym yn annog Llywodraeth y DU i gydnabod, o fewn fframwaith canllawiau y cytunwyd arnynt, y dylai dyrannu'r cyllid i ardaloedd lleol yn y gwledydd datganoledig fod yn fater datganoledig.
- Rydym yn argymhell, os byddai unrhyw elfen o geisiadau cystadleuol yn cael ei hymgorffori yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y dylai fod yn ymylol i'r prif ddyraniad ar sail fformiwla.
- Rydym yn argymhell bod partneriaid lleol yn cael yr hyblygrwydd i ddiffinio'r mathau o brosiectau y mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei gwario arnynt, cyn belled â bod y gweithgareddau'n parhau i fod yn gyson ag amcanion ehangach y Gronfa.
- Rydym yn argymhell y dylid sicrhau cyn lleied â phosibl o ofynion i ariannu gweithgareddau penodol, ond byddem hefyd yn disgwyl i gynlluniau gwario partneriaid lleol fod yn bortffolio cytbwys.
- Rydym yn disgwyl i lywodraeth y DU barchu'r setliad datganoli ac felly dylid cadw unrhyw ganllawiau ar gyfer y Gronfa gyfan ar lefel strategol eang a chytuno arnynt ar y cyd rhwng llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.
- Rydym hefyd yn argymhell, o fewn fframwaith y canllawiau y cytunwyd arnynt, y dylai Llywodraeth y DU drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynllunio a chyflawni'n fanwl y rhannau perthnasol o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i'r gweinyddiaethau datganoledig a'u partneriaid.
- Rydym hefyd yn argymhell, gan adlewyrchu'r cyfrifoldeb datganoledig hwn, y dylid ail-frandio'r Gronfa i adlewyrchu'r pedair gwlad, sef UKSPF Cymru, UKSPF Lloegr, UKSPF yr Alban a UKSPF Gogledd Iwerddon.
- Argymhellwn fod pwyslais cryf ar ganiatáu i bartneriaid lleol ddiffinio a mesur canlyniadau targed.

Adroddiad yr Institute for Government ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd yr Institute for Government ei [adroddiad](#) *The UK Shared Prosperity Fund: Strengthening the union or undermining devolution?*

Themâu allweddol yr adroddiad:

- **Cyfeiriodd Llywodraeth Geidwadol flaenorol y DU at allu Llywodraeth Cymru i reoli cyllid yr UE fel ymrwymiad i ddatganoli**

Detholiad o'r adroddiad

- Cyfeiriodd llywodraeth y DU ar y pryd [yn 2014] at y trefniadau ar gyfer darparu cronfeydd strwythurol yr UE fel tystiolaeth o'u hymrwymiad i ddatganoli.
- Nododd y llywodraeth glymblaid: "Polisi'r Llywodraeth ar wariant Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yw ei bod yn briodol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu gwariant eu hunain...mae'n dangos bod y Llywodraeth wedi ymrwngwng i ddatganoli pwerau lle bo hynny'n briodol, i weinidogion

Cymru ac mae'n dangos ei hymrwymiad i reoli gwariant rhanbarthol ar lefel ranbarthol."

- **Datganoli a Rôl Llywodraethau Datganoledig**

Detholiad o'r adroddiad

- Er nad yw'r gwaith o gynllunio UKSPF wedi'i gwblhau'n derfynol, mae'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael i'r cyhoedd yn nodi'n glir y bydd gan y gweinyddiaethau datganoledig lai o reolaeth dros sut mae'r UKSPF yn cael ei wario yn eu tiriogaethau nag yn achos cronfeydd strwythurol yr UE.
- Disgwylir i'r llywodraethau datganoledig chwarae rhan ymylol mewn penderfyniadau dyrannu yn eu tiriogaethau eu hunain, er y bydd y gronfa'n gwario arian ar faterion sy'n gyfrifoldeb yn bennaf i'r llywodraethau datganoledig, megis trafnidiaeth, sgiliau a datblygu economaidd.
- Bydd gwleidyddion yn San Steffan yn gallu llunio polisi mewn meysydd datganoledig megis addysg, trafnidiaeth a datblygu economaidd. Nid oes fawr o gyswllt i lywodraeth y DU wario arian ar swyddogaethau datganoledig yn y modd hwn heb ganiatâd y gweinyddiaethau datganoledig.
- Bydd llywodraeth y DU yn gwario ar swyddogaethau polisi sydd yn bennaf yn gyfrifoldebau datganoledig. Rydym wedi amlinellu'r risg y bydd hyn yn arwain at ddyblygu swyddogaethau di-fudd a darnio darpariaeth gwasanaethau. Mae'r risg hon wedi cael ei dwysau gan y lefel isel o ymgynghori ffurfiol yn ystod dyluniad UKSPF.
- Mae [y Llywodraethau Datganoledig] hefyd wedi dweud y byddent yn fodlon gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddylunio dulliau amgen o gyflawni gwariant UKSPF – ond nad yw'r cynnig hwn wedi cael ei dderbyn gan lywodraeth y DU.

- **Adolygiad Dunlop a Llywodraeth y DU**

Detholiad o'r adroddiad

- Byddai'r gwaith o gyd-reoli UKSPF hefyd yn cyd-fynd ag argymhellion Adolygiad Dunlop o Alluogrwydd Undebau Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2021.
- Roedd hyn yn cynnig sefydlu cronfa newydd ar gyfer prosiectau ledled y DU, a fyddai'n cael ei gwario gan lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn "gweithio ar y cyd". Nododd hefyd na ddylai cyllid gan lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig gymryd lle cyllid craidd a rhaid ei ddefnyddio gyda chefnogaeth y llywodraethau datganoledig.

- **Canoli Llywodraeth y DU**

Detholiad o'r adroddiad

- Mae agwedd gweinidogion y DU hyd yma at ddylunio UKSPF (a mentrau cysylltiedig eraill fel y Gronfa Codi'r Gwastad) yn awgrymu bod y llywodraeth yn bwriadu cadw rheolaeth dynn ar y system, yn hytrach na bwrw ymlaen mewn partneriaeth â llywodraethau datganoledig, rhanbarthol neu leol.

- **Diffyg dull partneriaeth**

Detholiad o'r adroddiad

- Gan fod blaenoriaethau cyllido'r llywodraeth ar gyfer UKSPF yn cynnwys meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i raddau helaeth, mae perygl y gallai'r gronfa ddyblygu prosiectau a mentrau polisi sy'n cael eu harwain gan y gweinyddiaethau datganoledig.
- Mae'r dull gweithredu hwn gan lywodraeth y DU yn cynnwys risgiau a allai leihau effeithiolrwydd UKSPF a thanseilio ei amcanion ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Dyblygu swyddogaethau
 - Darparu gwasanaethau mewn ffordd dameidiog
 - Atebolrwydd dryslyd
 - Ansicrwydd cyllido
 - Mwy o densiynau
- Mae'r risgiau hyn yn cael eu gwaethygu gan y graddau cyfyngedig y mae llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid eraill. Nid yw eto wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y gronfa.
- Mae adran arweiniol UKSPF, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, wedi gweithredu bron yn gyfan gwbl fel adran o Loegr yn hytrach nag un o adrannau'r DU, gan fod y meysydd polisi y mae'n gyfrifol amdanynt bron yn gyfan gwbl wedi'u datganoli. Yn wir, yn ôl adolygiad gwariant 2020, mae o leiaf 99.6% o wariant y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol er budd Lloegr yn unig, gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn cael adnoddau i ariannu swyddogaethau tebyg eu hunain.
- Mae hyn yn golygu, fel adran, nad oes gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fawr o brofiad o weithio yn y tiriogaethau datganoledig nac o wybod am y cyd-destun polisi penodol lle bydd UKSPF yn gweithredu y tu allan i Loegr. I'r gwrthwyneb, mae gan y gweinyddiaethau datganoledig fecanweithiau sefydledig ar gyfer darparu cronfeydd strwythurol yr UE a chysylltiadau hirsefydlog yn eu tiriogaethau â sefydliadau sy'n derbyn arian yn y sector addysg, diwydiant a chymdeithas sifil.

- **Ymrwymadau cyllido**

Detholiad o'r adroddiad

- Cafodd llywodraeth y DU ei hethol yn 2019 ar ymrwymiad maniffesto y byddai gwariant o dan UKSPF "o leiaf" yn cyfateb i ddyraniad cronfeydd strwythurol ym mhob un o bedair gwlad y DU.
- Roedd ymrwymiad adolygiad gwariant 2020 yn fwy amwys: "Bydd cyfanswm y cyllid domestig ledled y DU o leiaf yn cyfateb i'r derbyniadau o gronfeydd strwythurol yr UE." Nid oedd yn ailadrodd yr ymrwymiad y byddai cyllid yn cael ei gynnal ym mhob gwlad.

- **Institute for Government yn argymhell mewnbyn gan y gweinyddiaethau datganoledig i fframwaith UKSPF**

Detholiad o'r adroddiad

- Gwella ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig fel blaenoriaeth ar unwaith, gyda gweinidogion yn awdurdodi swyddogion i rannu llawer mwy o wybodaeth nag ar hyn o bryd, yn ogystal â cheisio mewnbwn gan y gweinyddiaethau datganoledig ar bob cam o'r broses o ddatblygu fframwaith buddsoddi UKSPF.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

08 Hydref 2021

Annwyl Weinidog,

Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Ia, Liechtenstein a Norwy

Fel rhan o'n gwaith craffu ar gytundebau masnach rhyngwladol, trafododd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Ia, Liechtenstein a Norwy ar 30 Medi. Hoffai'r Aelodau gael rhagor o wybodaeth am y Cytundeb. Yn benodol, a allwch roi manylion am yr hyn a ganlyn:

- Unrhyw asesiad gan Lywodraeth Cymru – gan gynnwys unrhyw asesiad macroeconomaidd – o'r Cytundeb a'i effaith bosibl ar Gymru yn gysylltiedig â'r Cytundeb ar Fasnachu Nwyddau rhwng y DU, Gwlad yr Ia a Norwy ac yn gysylltiedig â pherthynas y DU o ran masnachu â Norwy, Gwlad yr Ia a Liechtenstein cyn i'r cyfnod pontio ddod i ben;
- Unrhyw sylwadau penodol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau gan gynnwys, os yw'n berthnasol, a aethpwyd i'r afael â'r sylwadau hyn yn y Cytundeb terfynol ai peidio;
- Unrhyw deddfwriaeth a allai fod yn ofynnol i weithredu'r Cytundeb, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd?

Mae Pennod 12 y Cytundeb yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chydabod cymwysterau proffesiynol ac mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn dyfynnu'r Bil Cymwysterau Proffesiynol yn benodol fel cyfrwng posibl ar gyfer hyn. Fel y byddwch yn ymwybodol, craffodd y Pwyllgor yn ddiweddar ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol a gosodwyd ei [adroddiad](#) ar 28 Medi. Bydd yn awyddus i ddilyn y rhyngweithio rhwng y Cytundeb hwn a'r Bil hwnnw os caiff ei basio.

Gan fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd.

Cofion gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Paul Davies". The signature is written in a cursive style with a large initial 'P'.

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.



Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru

28 Medi 2021

Annwyl Gadeirydd

Sicrhau Gwerth am Arian gan Grantiau Datblygu Gwledig

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf ynghylch yr uchod, sy'n dilyn yr ystyriaeth flaenorol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â'r dystiolaeth ynghylch Grantiau Datblygu Gwledig.

Fel y gallwch ddychmygu, mae prosiectau sydd wedi derbyn cyllid o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi wynebu cryn heriau, o ganlyniad i effaith y pandemig ac effeithiau parhaus ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd cyllid y rhaglen wedi cael ei wario'n llawn erbyn diwedd 2023.

Ar hyn o bryd yr ymrwymiad ar lefel prosiect yw £751.3 miliwn, sy'n golygu bod 90% o'r cyllid wedi'i neilltuo yn erbyn cyfanswm gwerth y rhaglen o £838 miliwn (nodwch nad yw gwerth Sterling y rhaglen yn sefydlog oherwydd newidiadau cyson i'r gyfradd gyfnewid). Mae ceisiadau gwerth £70 miliwn yn cael eu gwerthuso gan staff Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac mae cyfnodau'r cynllun yn parhau i weithredu i sicrhau bod cyllid y rhaglen yn cael ei neilltuo'n llawn. Ar 2 Medi roedd cyfanswm gwariant y rhaglen yn uwch na £550 miliwn, sef 66% o gyfanswm gwerth y rhaglen, gyda £386.9 miliwn ohono yn dod o gronfeydd yr UE.

O ran gwelliannau i'r broses ymgeisio, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu proses ymgeisio un cam gan ddefnyddio ei phorth Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Mae'r broses newydd wedi cael ei chynllunio i gasglu a defnyddio'r holl wybodaeth mewn un system sengl, gan symleiddio'r broses werthuso a chymeradwyo hawliadau ar gyfer buddiolwyr.

Yn ogystal, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarferion i wirio agweddau ar y ffordd mae prosiectau unigol yn cael eu gweinyddu a'u cyflawni, fel gofynion tendro cystadleuol, cyn cynnal y gwiriadau gweinyddol ffurfiol ar y safle tuag at ddiwedd prosiect. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i wirio pa mor rhesymol yw'r costau, lleihau baich gwiriadau ar y safle a symleiddio'r broses ofynnol ar gyfer cau prosiectau – gan ddileu'r


Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

posibilrwydd y bydd ôl-groniad wrth brosesu ceisiadau a thaliadau'n cael eu gwneud yn hwyr yn ystod gweddill cyfnod N+3, h.y. erbyn 31 Rhagfyr 2023.

Gan gydnabod ei bod yn bosibl y bydd prosiectau'n ei chael yn anodd bodloni dyddiad cau N+3 o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ac ymadawiad y DU â'r UE, ar 21 Medi 2021 cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru becyn o ymrwymadau pellach drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys elfen resymol o gynllunio i wario mwy nag sydd ar gael. Dylai'r dull hwn liniaru ymhellach y risg y bydd cyllid nad yw wedi cael ei wario'n cael ei golli.

Gyda'r dymuniadau gorau.

Yn gywir



Andrew Slade

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

John Davies,
Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
(NFU Cymru)
Aled Jones
Dirprwy Lywydd
NFU Cymru
Drwy e-bost
[NFUCymru@nfu.org](mailto:NFUCymru@nfu.org.uk)
uk

13 Hydref 2021

Annwyl John ac Aled

Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014–2020 – Darpariaeth Llywodraeth Cymru

Cyfeiriaf at fy ateb dros dro ar 21 Gorffennaf.

Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'm llythyr yn rhoi diweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru wrth ddarparu'r Cynllun Datblygu Gwledig, yn enwedig unrhyw welliannau sy'n cael eu gwneud i'r broses o wneud cais ac asesiad o lefel y risg y bydd cronfeydd sydd heb eu gwario yn cael eu fforffedu. Atodaf gopi o'r ymateb.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod gwelliannau wedi'u cyflwyno yn y broses o wneud cais, yn sgil proses un cam o wneud cais gan ddefnyddio porth ar-lein Taliadau Gwledig Cymru, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. At hynny, mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod y broses newydd wedi'i dylunio i gipio a defnyddio'r holl wybodaeth mewn un system, gan symleiddio'r broses arfarnu a chymeradwyo hawliadau ar gyfer buddiolwyr.


Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer i wirio agweddau ar weinyddu a chyflawni prosiectau unigol – er enghraifft, gofynion tendro cystadleuol – cyn i'r gwiriadau gweinyddol ffurfiol sydd ar waith ar hyn o bryd gael eu cynnal tuag at ddiwedd prosiect.

Yn olaf, cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru gyhoeddiad ar 21 Medi 2021 y byddai pecyn o ymrwymadau pellach – gan gynnwys elfen resymol o or-raglennu – i'w wneud trwy'r

Cynllun Datblygu Gwledig. Y gobaith yw y dylai'r dull hwn liniaru ymhellach y risg y bydd arian nas gwariwyd yn cael ei fforffedu.

Os hoffech i ni ystyried hyn ymhellach, gadewch i mi gael eich adborth.

Yn gywir

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'Mark Isherwood', written over a horizontal line.

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor



**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

**Public Accounts and Public
Administration Committee**

John Davies
Llywydd NFU Cymru
Aled Jones Dirprwy Lywydd NFU Cymru

Drwy'r e-bost:
NFUCymru@nfu.org.uk

21 Gorffennaf 2021


Annwyl John ac Aled

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf a'ch geiriau caredig wedi imi gael fy ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae'n anrhydedd imi gael fy ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor dylanwadol hwn.

Yn dilyn yr ohebiaeth flaenorol rhyngoch chi a fy rhagflaenydd ddiwedd 2020/dechrau 2021 ynghylch y modd roedd Llywodraeth Cymru yn rhoi Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 ar waith, rwy'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn holi am y sefyllfa ddiweddaraf ers yr ymateb a gafwyd ganddynt yn gynharach eleni. Byddaf yn ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth ichi wedi i'r wybodaeth hon ddod i law.

Yn gywir,



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon